**Eitem ar yr agenda: 13**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**15 MAWRTH 2004**

**NEWID I'R CÔD YMDDYGIAD**

Adroddiad gan y Clerc

## Diben yr Adroddiad

1 Newid bychan i gôd ymddygiad yr Awdurdod i adlewyrchu newid i'r côd ymddygiad enghreifftiol a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## Cefndir

2 Ar 28 Ionawr, gwnaed Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Diwygio) (Cymru) 2004 Rhif 163, a daeth i rym ar 31 Ionawr. Mae'n newid paragraff 15(ch) o'r côd ymddygiad enghreifftiol trwy ychwanegu rhai geiriau. Mae paragraff 15(ch) nawr yn darllen (mae'r geiriau ychwanegol mewn llythrennau duon): "â swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â lwfans neu daliad a wneir o dan Adrannau 173 i 176 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu **lwfans neu bensiwn a wneir o dan** Adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989."

3 Effaith y newid yw ei gwneud yn glir nad oes gan yr aelodau fuddiant personol mewn mater i'r graddau y mae'n ymwneud â lwfansau neu bensiynau a delir i aelodau.

## Cyngor

4 Gan fod côd ymddygiad yr Awdurdod Tân wedi ei seilio ar y côd ymddygiad enghreifftiol, mae'n rhaid ei newid. Nid oes raid i'r aelodau lofnodi'r côd ymddygiad eto o ganlyniad i'r newid oherwydd maent wedi ymroi i gadw at y côd ymddygiad mae'r Awdurdod Tân wedi ei fabwysiadu am y tro.

5 Nid oedd gorchymyn y Cynulliad wrth law ar adeg cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 28 Ionawr. Felly, rwyf wedi ysgrifennu at aelodau'r Pwyllgor Safonau i wahodd eu sylwadau ar yr adroddiad hwn. Adroddir ynghylch unrhyw sylwadau a ddaeth i law ar lafar yn y cyfarfod.

**Argymhelliad**

6 Bod yr Awdurdod Tân yn newid paragraff 15(ch) o'i gôd ymddygiad trwy roi i mewn y geiriau "lwfans neu bensiwn a wneir o dan" cyn "Adran 18".